



Dewis Cymru

Cael dewis a chymryd rheolaeth



Ydych chi, neu rywun rydych chi'n eu hadnabod yn rhagweld neu'n cael profiad o newid mewn lles? Oes gennych chi ddi-ddordeb mewn bod yn iach eich hunan neu rywun rydych yn ei adnabod?



Dywed pobl wrthym nad yw'n hawdd i ddod o hyd i'r wybodaeth gywir, ar yr adeg gywir, ac wedi ei chyflwyno yn y ffordd iawn...



Amcan gwefan Dewis fydd cynorthwyo lles oedolion drwy ddarparu gwybodaeth o safon o gronfa ddata gynhwysfawr o adnoddau, sydd wedi ei datblygu o rwydwaith o sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd a chymdeithasau o'r trydydd sector a'r sector annibynnol.



Cewch wybodaeth gynhwysfawr am sefydliadau a chymdeithasau. Gwasanaethau, grwpiau, clybiau, cyfarfodydd a digwyddiadau sy'n cynorthwyo lles pobl.



Mae ymgynghoriad gyda dinasyddion a staff ledled Cymru yn helpu Dewis i ddatblygu'r wefan fwyaf ymarferol sy'n gweithio i bobl.



Bydd ansawdd a chynaliadwyedd y wybodaeth yn cael ei sicrhau gan weithio'n gydweithredol rhwng sefydliadau a rhwydweithiau; bydd yn gwerthuso ac yn dathlu'r holl adnoddau sydd ar gael, ac yn ei gwneud hi'n haws i ddod o hyd i wybodaeth sydd o gymorth.